Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gatholig a Chanolfan Chweched Dosbarth Joseff Sant
# Newton Avenue
# Aberafon
# Port Talbot
# SA12 6EY

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gatholig a Chanolfan Chweched Dosbarth Joseff Sant

Mae Ysgol Gatholig a Chanolfan Chweched Dosbarth Joseff Sant yn ysgol cyfrwng Saesneg, 11-18 oed yn awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot. Mae 868 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 209 yn y chweched dosbarth, sydd ychydig yn ystod nag adeg yr arolygiad diwethaf yn Chwefror 2013.

Mae'r ysgol wedi'i lleoli ar ystâd Sandfields ac mae'n gwasanaethu plwyfi Joseff Sant (Castell-nedd), Our Lady of Margam, Our Lady of the Assumption (Llansawel), Joseff Sant (Port Talbot), St Therese's (Sandfields) a Bened Sant (Clydach). Daw nifer fach o ddisgybion o'r tu allan i'r awdurdod lleol, o Ddinas a Sir Abertawe yn bennaf. Mae polisi derbyn yr ysgol yn rhoi blaenoriaeth i blant Catholig ond mae'n derbyn disgyblion o gefndiroedd ffydd eraill, gan gynnwys disgyblion heb gefndir ffydd.

Mae ychydig dros 25% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer ysgolion uwchradd yng Nghymru, sef 16.4%. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf ac mae ychydig bach iawn ohonynt yn siarad Cymraeg gartref. Daw tuag 16% o ddisgyblion o grwpiau ethnig lleiafrifol.

Mae gan 24% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 22.9%. Yn ogystal, mae gan 1.6% o ddisgyblion ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig o gymharu â 2.2% ar gyfer Cymru gyfan.

Penodwyd y pennaeth presennol yn Ebrill 2012. Hefyd, mae'r uwch dîm arwain yn cynnwys un dirprwy bennaeth, tri phennaeth cynorthwyol, y Cydlynydd ADY a'r rheolwr busnes.

Tan yn ddiweddar, roedd yr ysgol yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i fwrw ymlaen â datblygiadau'n gysylltiedig â diwygio addysg yng Nghymru.

Nid yw Estyn yn arolygu addysg grefyddol na chynnwys crefyddol addoli ar y cyd pan fydd yr ysgol yn un â chymeriad crefyddol. Yn hytrach, mae'n ofyniad cyfreithiol i'r corff llywodraethol drefnu bod addysg grefyddol ac addoli ar y cyd yn cael eu harolygu ar wahân.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Gatholig a Chanolfan Chweched Dosbarth Joseff Sant yn cynnig amgylchedd gofalgar a chynhwysol, lle mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus. Mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn rhyngweithio’n gadarnhaol gyda’i gilydd ac oedolion eraill. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn ac yn ymgysylltu’n dda â’u dysgu.

Mae’r ysgol yn cynnig amrywiaeth eang o brofiadau dysgu i ddisgyblion, gan gynnwys llawer o glybiau a theithiau, ac mae staff yn cefnogi lles disgyblion yn llwyddiannus. Mewn mwyafrif o wersi, mae athrawon yn addasu’r gwaith yn effeithiol i fodloni anghenion disgyblion a sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd priodol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn cynllunio’n ddigon gofalu ac mae eu disgwyliadau ar gyfer ansawdd gwaith disgyblion a faint o waith mae disgyblion yn ei wneud yn rhy isel. Yn gyffredinol, nid yw’r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cynyddol medrau disgyblion wedi’i datblygu’n ddigonol.

Mae arweinyddiaeth lwyddiannus wedi arwain at welliannau mewn safonau dros y blynyddoedd diwethaf a darpariaeth effeithiol ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi rhoi digon o sylw i wella ansawdd addysgu a dysgu, na’r ddarpariaeth ar gyfer medrau.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwella** |

## Argymhellion

A1 Gwella safonau, yn enwedig o ran medrau disgyblion

A2 Gwella ansawdd addysgu ac asesu

A3 Gwella ansawdd ac effaith arweinyddiaeth strategol

A4 Gwella presenoldeb

A5 Sicrhau rheolaeth ariannol gadarn

A6 Ymateb i'r materion lles a amlygwyd yn ystod yr arolygiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwella**

Mewn mwyafrif o wersi, mae disgyblion yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu ac yn gwneud cynnydd cadarn. Yn y gwersi hyn, mae disgyblion yn adalw dysgu blaenorol yn effeithiol ac mae ganddynt afael sicr ar derminoleg penodol i bwnc. Mewn ychydig bach iawn o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd arbennig o gryf. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, mae gallu disgyblion i adalw dysgu blaenorol a thermau allweddol yn wan ac nid ydynt yn gwneud cynnydd digonol.

Mae llawer o ddisgyblion yn talu sylw astud mewn gwersi ac yn gwrando ar eu hathrawon ac ar ei gilydd. Mae llawer ohonynt yn awyddus i ateb cwestiynau ac mae lleiafrif ohonynt yn rhoi atebion estynedig, rhesymegol, er enghraifft wrth drafod y rhesymau dros benderfyniad Tsar Nicholas II i ildio'r goron mewn gwersi hanes. Mae ychydig ddisgyblion yn hynod huawdl ac yn mynegi'u barn yn aeddfed. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn rhoi ymatebion byr, heb eu datblygu'n ddigonol, neu maent yn amharod i gymryd rhan yn nhrafodaethau'r dosbarth.

Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau darllen sylfaenol cadarn. Maent yn sgimio ac yn sganio testunau yn gymwys ac yn lleoli a dethol gwybodaeth yn effeithlon. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn amlygu testunau yn briodol ond maent yn llai hyderus wrth anodi a dadansoddi testunau. Mae ychydig ddisgyblion yn anodi ac yn dadansoddi testunau yn fedrus, er enghraifft wrth ddadansoddi nodweddion ysgrifennu gothig. Mae ychydig ddisgyblion yn cael trafferth deall deunyddiau darllen.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu'n gywir ac yn trefnu'u gwaith yn briodol. Pan roddir cyfleoedd priodol iddynt, maent yn llunio gwaith ysgrifennu estynedig addas. Ar y cyfan, fodd bynnag, nid yw disgyblion yn ymarfer eu medrau darllen estynedig yn ddigonol ar draws y cwricwlwm nac yn ysgrifennu at amrywiaeth ddigon eang o ddibenion. Mae ychydig ddisgyblion yn cynhyrchu ysgrifennu estynedig o ansawdd uchel ac mae eu medrau drafftio a golygu wedi'u datblygu'n dda. Maent yn ysgrifennu gyda chywirdeb a manylder, ac yn defnyddio amrywiaeth o fathau o frawddegau a nodweddion arddulliadol i greu effaith. Er enghraifft, yn y dyniaethau, maent yn defnyddio iaith ddarbwyllol yn effeithiol pan fyddant yn ysgrifennu llythyron ffuglennol i lywodraethau am eu strategaethau i fynd i'r afael â'r materion sydd ynghlwm â lledaeniad AIDS. Nid yw mwyafrif o ddisgyblion yn ailddrafftio nac yn gwella'u gwaith yn ddigon da ac mae eu gallu i drefnu a strwythuro'u gwaith ysgrifenedig yn annibynnol yn rhy gyfyngedig.

Mae llawer o ddisgyblion yn gallu datrys problemau rhifiadol sylfaenol yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gyfraneddau syml. Gall y disgyblion hyn gymhwyso'u medrau rhifedd i wella'u dealltwriaeth, er enghraifft pan ddefnyddiant y berthynas rhwng cylchedd a diamedr i amcangyfrif pi a datrys problemau wrth gyfrifo cylchedd cylchoedd. Fodd bynnag, mae mwyafrif o ddisgyblion yn cael trafferth cymhwyso'u medrau rhifedd i ddatrys problemau mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Mae gan ychydig ddisgyblion ddealltwriaeth gyfyngedig o werth lle, sut i blotio graffiau a sut i esbonio'u dulliau o ddatrys problemau mathemategol.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn gymwys i ymchwilio ac ar gyfer prosesu geiriau, cyflwyniadau a gwaith taenlen sylfaenol. Hefyd, maent yn defnyddio pecynnau penodol, fel meddalwedd dylunio 2D a 3D, yn briodol mewn technoleg. Ar y cyfan, fodd bynnag, nid yw disgyblion yn datblygu'u medrau TGCh uwch yn ddigon da ar draws y cwricwlwm.

Mewn ychydig bynciau, mae disgyblion yn datblygu'u medrau creadigol yn dda. Er enghraifft, maent yn datblygu'u medrau perfformiad yn effeithiol mewn cerddoriaeth ac wrth iddynt greu meimiau yn fyrfyfyr mewn drama. Mae ychydig ddisgyblion yn dangos gwreiddioldeb a dawn yn eu hysgrifennu creadigol ac yn eu dealltwriaeth graff o farddoniaeth, er enghraifft pan fyddant yn archwilio thema dianc ym marddoniaeth Keats. Mae llawer o ddisgyblion yn ymhél yn frwd mewn gweithgarwch corfforol, er enghraifft pan fyddant yn datblygu tactegau tîm mewn gêm aml-fedrau mewn gwersi addysg gorfforol.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu'u medrau meddwl yn briodol, er enghraifft pan fyddant yn esbonio'u prosesau meddwl ar gyfer dilyniannu trosglwyddiadau ynni mewn cadwyn fwyd mewn gwyddoniaeth. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw disgyblion yn datblygu'u medrau meddwl yn ddigon da gan na chynigir digon o gyfleoedd iddynt. Mae ychydig ddisgyblion yn cael trafferth esbonio neu gymhwyso cysyniadau sylfaenol.

O 2016 i 2018, bu perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 yn anwadal ond, ar y cyfan, gwnaeth disgyblion gynnydd addas. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd perfformiad merched yn cymharu'n dda â pherfformiad merched mewn ysgolion tebyg, ond yn gyffredinol, gwnaeth perfformiad bechgyn a disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim gymharu'n llai ffafriol ar y cyfan â'r grwpiau hyn mewn ysgolion tebyg. Dros yr un cyfnod, roedd deilliannau yn y Gymraeg yn gadarn ac enillodd mwyafrif y disgyblion gymhwyster lefel 2 ar ddiwedd cyfnod allweddol 4. Mae bron pob un o'r disgyblion yn symud ymlaen i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant pan adawant yr ysgol.

Dros y tair blynedd o 2016 i 2018, mae cyfran y disgyblion chweched dosbarth sy'n ennill tair gradd A*-C a thair gradd A*-A mewn Safon Uwch neu gyfwerth yn cymharu'n dda ar y cyfan â lefelau mewn ysgolion tebyg. Mae lefelau cadw yn nodwedd gadarnhaol hefyd, gyda chyfran y disgyblion sy'n cwblhau'u cyrsiau ac yn cyflawni o leiaf 3 chymhwyster lefel 3 yn cyd-fynd yn fras â'r cyfartaledd cenedlaethol. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad o raddau disgyblion yn dangos, yn gyffredinol, nad yw disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd â disgyblion sydd â lefelau tebyg o gyrhaeddiad blaenorol.

## Lles ac agweddau at ddysgu: Digonol ac angen gwella

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn mwynhau dod i'r ysgol. Gwyddant at bwy i droi os bydd angen help arnynt ac maent yn ymwybodol o'r angen i gadw'n ddiogel ar-lein. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos parch tuag at ei gilydd ac yn gallu dibynnu ar eu ffrindiau am gymorth pan aiff pethau o le. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn hyderus bod yr ysgol yn delio'n dda â'r ychydig bach o adroddiadau am fwlio.

Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau cymdeithasol datblygedig ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwrtais ac yn groesawgar tuag at ymwelwyr.  Er enghraifft, maent yn agos drysau ac yn cyfarch pobl yn gadarnhaol pan gânt eu cyflwyno.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol.  Mewn gwersi, maent yn ymgysylltu'n dda, yn dangos agweddau cadarnhaol ac yn barod i ddysgu.  Fodd bynnag, caiff sylw ychydig ddisgyblion i'w gwaith ei dynnu'n rhy hawdd.  Mae'r disgyblion hyn yn dangos ymddygiad gwael sy'n tarfu ar eu dysgu'u hunain ac ar ddysgu disgyblion eraill.  Yn yr achosion hyn, mae'r disgyblion yn rhy araf i ganolbwyntio a thalu sylw i'r gwaith sydd wedi'i osod.  O ganlyniad, maent yn gwneud cynnydd annigonol.

Mae mwyafrif y disgyblion yn cwblhau'r gwaith sydd wedi'i osod ac yn dangos lefelau addas o benderfyniad.  Mae ychydig ddisgyblion yn archwilio cysyniadau newydd ac yn ceisio dwysáu'u dealltwriaeth, ac mae llawer o ddisgyblion y chweched dosbarth yn dangos gwydnwch addas wrth fynd i'r afael â thasgau heriol.

Mae llawer o ddisgyblion yn deall yr angen am ffordd iach o fyw a phwysigrwydd deiet ac ymarfer corff.  Maent yn elwa o gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o deithiau a chyfleoedd allgyrsiol, fel clybiau chwaraeon a chlwb newyddiaduriaeth y 'News Room'.  Mae cyfradd uchel o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol.

Mae llawer o ddisgyblion yn y chweched dosbarth yn datblygu'u medrau arweinyddiaeth yn briodol, er enghraifft fel llysgenhadon ethos neu wrth fentora disgyblion iau a'u cynorthwyo mewn gwersi.  Mae ychydig ddisgyblion wedi dechrau dylanwadu ar y ddarpariaeth ar gyfer lles.  Er enghraifft, mae cynrychiolwyr o Flwyddyn 11 a Blwyddyn 12 yn aelodau o'r fforwm iechyd meddwl lleol ac maent wedi cwblhau arolwg o farn disgyblion yn ddiweddar.  Un canlyniad yr arolwg oedd cyflwyno blwch 'amser i siarad' i ddisgyblion ofyn am gymorth gan fentoriaid cymheiriaid.

Mae ychydig ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3 a 4 yn datblygu'u medrau arwain yn addas, er enghraifft trwy ddod yn fentoriaid cymheiriaid ac yn aelodau o'r cyngor ysgol.  Fodd bynnag, nid yw pob disgybl yn gwybod am rôl y cyngor ysgol ac nid yw'n dylanwadu ar benderfyniadau ysgol gyfan yn ddigon da.  Mae ychydig ddisgyblion wedi dylanwadu ar ddysgu ac addysgu, er enghraifft pan maent wedi cymryd rhan mewn datblygu'r cynlluniau gwaith a'r strategaethau addysgu ar gyfer gwersi rhifedd.  Ar y cyfan, nid yw safbwyntiau disgyblion yn cael digon o ddylanwad ar fywyd ysgol.

Fe wnaeth cyfraddau presenoldeb wella yn 2019 ond, yn gyffredinol, maent wedi bod islaw'r disgwyliadau dros y pedair blynedd diwethaf.

### Addysgu a phrofiadau dysgu:  Digonol ac angen gwella

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn meithrin perthynas waith gadarnhaol gyda disgyblion.  Mewn llawer o wersi, mae gan athrawon wybodaeth gadarn am y pwnc a rhoddant gyfarwyddiadau clir.  Mae'r athrawon hyn yn darparu adnoddau defnyddiol sy'n cefnogi dysgu'r disgyblion yn dda.

Mewn mwyafrif o wersi, mae athrawon yn paratoi gweithgareddau diddorol i ddechrau arni a thasgau sy'n ysgogi chwilfrydedd disgyblion.  Mae'r athrawon hyn yn

esbonio cysyniadau yn effeithiol ac yn darparu enghreifftiau sy'n helpu disgyblion i ddeall beth ddylent ei wneud a'r ffordd orau i fynd ati gyda thasgau. Maent yn addasu'u haddysgu yn fuddiol i fodloni anghenion disgyblion o wahanol alluoedd. Hefyd, maent yn rhoi cymorth effeithiol wrth grwydro'r ystafell ddosbarth a thrwy ddefnyddio cynorthwywyr cymorth dysgu yn llwyddiannus. Yn y gwersi hyn, mae cyflymder y dysgu yn addas ac mae disgyblion yn gwneud cynnydd priodol.

Yn yr ychydig bach o wersi lle y gwna disgyblion gynnydd cadarn iawn, mae gan athrawon lefel uchel o wybodaeth am eu pwnc. Wrth gynllunio gwersi, mae'r athrawon hyn yn ystyried dysgu blaenorol disgyblion yn ofalus ac mae ganddynt nodau dysgu uchelgeisiol. Mae nodau eu gwersi yn glir ac mae'r disgyblion yn deall pwrpas y dysgu yn dda. Maent yn cyflwyno mewn ffordd ddifyr a chreadigol, gan ddal diddordeb a dychymyg disgyblion yn dda. Mae gan yr athrawon hyn ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion ac maent yn canolbwyntio'n briodol ar ansawdd eu gwaith. Maent yn gofyn cwestiynau sy'n procio'r meddwl a gwiriant ddealltwriaeth disgyblion yn rheolaidd, gan addasu'u gwersi lle bo'r angen.

Mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon gofalus i sicrhau cynnydd disgyblion. Mae diffyg nodau clir yn eu gwersi ac nid ydynt yn addasu'u haddysgu yn briodol i fodloni anghenion disgyblion o alluoedd gwahanol. Nid yw'r athrawon hyn yn rhoi digon o her i ddisgyblion ac mae eu disgwyliadau ynghylch ansawdd y gwaith a faint o waith y mae disgyblion yn ei gynhyrchu yn rhy isel. Rhoddant ormod o dasgau lefel isel, fel copïo, i ddisgyblion neu rhoddant ormod o help iddynt. Nid yw'r athrawon hyn yn modelu sut i fynd ati gyda thasg nac yn rhoi enghreifftiau buddiol i ddisgyblion i ategu'u dealltwriaeth. Yn y gwersi hyn, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd ac mae cyflymder y dysgu yn rhy araf.

Mae mwyafrif o athrawon yn defnyddio holi yn effeithiol i fesur dealltwriaeth a gwybodaeth disgyblion. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o athrawon yn gwneud hyn yn ddigon da. Yn aml, maent yn dibynnu'n rhy drwm ar holi'r ystafell gyfan, gyda dim ond ychydig bach iawn o'r disgyblion yn ymateb, ac nid yw hyn yn rhoi darlun digon cywir idynt o ddealltwriaeth pob disgybl. Nid ydynt yn rhoi digon o amser i ddsigyblion ymhél yn ystyrlon â chwestiynau neu drafodaethau ac maent yn derbyn atebion byr sydd heb eu datblygu'n ddigonol.

Mae mwyafrif o athrawon yn cynnig adborth defnyddiol ar lafar ac yn ysgrifenedig. Mae tua hanner yr athrawon yn rhoi tasgau dilynol gwerthfawr i ddisgyblion sy'n eu helpu i wella'u gwaith ac maent yn gwirio ymatebion y disgyblion yn briodol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, mae athrawon yn rhoi sylwadau arwynebol. Mae gormod o amrywiaeth o fewn a rhwng adrannau o ran effaith asesu ar wella gwaith disgyblion, a'r disgwyliadau ynghylch ymatebion disgyblion i adborth.

Yn gyffredinol, mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm cytbwys a pherthnasol sy'n adeiladu'n briodol ar brofiadau'r disgyblion. Mae rhaglen i ddisgyblion mwy abl yn cynnig cyfleoedd a chymorth gwerthfawr, sydd wedi arwain at well deilliannau a chyrhaeddiad. Fodd bynnag, nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer y cwricwlwm yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd mewn ychydig bach iawn o bynciau, er enghraifft mewn ieithoedd tramor modern yng nghyfnod allweddol 3 ac mewn ychydig gyrsiau yng nghyfnod allweddol 4 a chyfnod allweddol 5, lle nad yw opsiynau cyfatebol ar gael.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r ysgol yn ystyried dyheadau disgyblion yn briodol wrth gynllunio'r cwricwlwm ac mae'n cynnig ystod briodol o gyrsiau academaidd a galwedigaethol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu dilyn eu llwybrau dymuniedig a manteisio ar raglenni sy'n cynnig darpariaeth briodol a chymwysterau gwerthfawr. Mae'r ysgol wedi ehangu ei darpariaeth trwy drefniadau â phartneriaid allanol, er enghraifft yn sgil cyflwyno cyrsiau oddi ar y safle ar gyfer adeiladu a thrin gwallt. Yn ddiweddar, mae hefyd wedi cryfhau'r ddarpariaeth cwricwlwm amgen i ddisgyblion agored i niwed ac mae bellach yn darparu cyfleoedd dysgu perthnasol ynghyd â chyfleoedd i ennill cymwysterau ffurfiol.

Bu datblygiadau creadigol mewn ychydig o feysydd y cwricwlwm. Er enghraifft, caiff cwrs lles ei addysgu mewn addysg gorfforol yng nghyfnod allweddol 3, sydd wedi cynorthwyo disgyblion i ddod yn foesegol, gwybodus a hyderus yn effeithiol. Mewn gwersi yn y dyniaethau, mae disgyblion yn astudio goblygiadau hanesyddol, daearyddol a moesegol materion cyfredol fel Brexit a'r argyfwng dyngarol yn Syria.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd cadarnhaol i ddisgyblion ymestyn eu dysgu'r tu allan i'r ystafell ddosbarth. Cynigir ystod eang o weithgareddau allgyrsiol sy'n gwella lles disgyblion, er enghraifft cynllun Gwobr Dug Caeredin, ymweliadau â busnesau lleol a gwaith maes ar benrhyn Gŵyr.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu'u medrau Cymraeg a'u dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru, fel Eisteddfodyr ysgol, teithiau i Langrannog a chlybiau chwaraeon cyfrwng Cymraeg. Ar y cyfan, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu ac ymarfer eu medrau Cymraeg y tu allan i wersi Cymraeg.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r ysgol wedi canolbwyntio'n briodol ar ddatblygu medrau llefaredd, rhesymu rhifiadol, Cymraeg a chymhwysedd digidol disgyblion ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw'r gwaith hwn wedi arwain at ddarpariaeth gynhwysfawr yn y meysydd hyn. Nid oes gan yr ysgol ymagwedd drefnus a chydlynedig at ddatblygu medrau disgyblion yn gynyddol ar draws y cwricwlwm.

Mae amrywiaeth o ymyriadau priodol i gefnogi disgyblion â medrau llythrennedd gwan. Fodd bynnag, prin yw'r cymorth sy'n bodoli i helpu disgyblion â medrau rhifedd gwan. Ni chaiff llawer o ymyriadau eu gwerthuso'n ddigon trylwyr.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol ethos cefnogol a chynhwysol sy'n hybu lles y disgyblion yn llwyddiannus. Mae staff yn cynnig lefel uchel o gymorth a gofal sensitif i ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth eang o strategaethau defnyddiol i gefnogi lles disgyblion. Mae canolfan 'Hwb' yn rhoi cymorth cynhwysfawr i ddisgyblion ag amrywiaeth o anghenion dysgu ac emosiynol ychwanegol. Mae disgyblion sy'n mynychu'r ddarpariaeth hon yn elwa o amrywiaeth o weithgareddau ac opsiynau, gan gynnwys amser 'tawel', therapi celf a therapi anifeiliaid anwes, sy'n helpu i ddatblygu'u medrau emosiynol a chymdeithasol. Hefyd, mae hyn yn helpu'r disgyblion i deimlo'n ddiogel ac maent yn gwerthfawrogi'r cyfle i droi at y ganolfan pan fydd angen cymorth arnynt. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar eu presenoldeb a'u lles cyffredinol.

Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n dda â rhieni trwy gylchlythyron a'r cyfryngau cymdeithasol. Hefyd, mae staff yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i rieni am gyflawniadau a phresenoldeb eu plentyn trwy ap ar-lein. Mae adroddiadau blynyddol yn rhoi gwybodaeth dda i rieni am gynnydd eu plant a'u targedau ar gyfer gwella. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 3, nid yw targedau cyflawniad a sylwadau ar bresenoldeb disgyblion unigol yn ddigon uchelgeisiol nac yn rhoi digon o symbyliad bob amser.

Mae'r trefniadau ar gyfer pontio gan ddisgyblion o'u hysgol gynradd yn gynhwysfawr ac yn eu helpu i gynefino'n gyflym â'r ysgol. Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn elwa o gymorth effeithiol, estynedig adeg pontio i ysgol uwchradd.

Caiff disgyblion gyngor priodol wrth wneud eu dewisiadau ar gyfer opsiynau cyfnod allweddol 4 ac ar gyfer gwneud penderfyniadau am y cam nesaf yn eu haddysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae ychydig ddisgyblion yn ymgymryd â phrofiad gwaith defnyddiol, yn bennaf trwy raglenni galwedigaethol. Yn y chweched dosbarth, mae llawer o ddisgyblion yn elwa o Rwydwaith sefydledig Seren ar gyfer disgyblion mwy abl a dosbarthiadau meistr gan brifysgolion.

Mae gan yr ysgol systemau olrhain addas i fonitro cynnydd academaidd disgyblion ym mhob cyfnod allweddol. Mae athrawon yn defnyddio gwybodaeth o'r system hon yn briodol i nodi disgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni. Caiff ei chyflwyno trwy fentora ac ymyrraeth cymorth dysgu. Mae arweinwyr bugeiliol yn monitro presenoldeb yn rheolaidd ac mae amrywiaeth o strategaeth i annog presenoldeb da. Fodd bynnag, mae olrhain a chofnodi presenoldeb ar draws pob grŵp blwyddyn yn anghyson ac nid yw strategaethau i wella presenoldeb wedi bod yn ddigon effeithiol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol ar gyfer delio â'r nifer bach o achosion o fwlio sydd wedi'u cofnodi. Mae polisi 'Parod i Ddysgu' newydd yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar agweddau ac ymddygiad disgyblion.

Mae cynlluniau addysg unigol yn gynhwysfawr ac yn fuddiol. Maent yn cynnwys strategaethau defnyddiol i helpu staff i fodloni anghenion disgyblion. Caiff disgyblion ag anghenion addysgol arbennig gymorth da trwy ymyriadau grŵp unigol a bach. Mae'r ysgol yn monitro ac yn cefnogi cyflawniad y disgyblion hyn yn effeithiol, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 3.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion trwy'r gwasanaeth dyddiol a'r rhaglen gofrestru 'Gofal Bore'. Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn cyfrannu'n dda at ddealltwriaeth disgyblion o bynciau fel perthnasoedd personol, cynaliadwyedd a materion byd-eang. Cânt arweiniad defnyddiol ar amrywiaeth eang o faterion, fel byw'n iach, cadw'n heini a diogelwch ar-lein. Yng nghyfnod allweddol 4, mae rhaglen addas o fedrau bywyd yn ychwanegu at hyn.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod gynhwysfawr o gyfleoedd amser cinio ac ar ôl ysgol i annog disgyblion i gymryd rhan yn y celfyddydau ac mewn chwaraeon. Mae'r rhain yn cynnwys clybiau chwaraeon fel pêl foli, osgoi'r bêl a thennis bwrdd, a rhai eraill fel

drama, mathemateg, ysgrifennu creadigol a gwyddbwyll a drafftiau. Mae trefniadau penodol ar gyfer annog bwyta ac yfed yn iach.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion yn gyffredinol, er bod angen adolygu'r trefniadau ar gyfer cofnodi presenoldeb disgyblion sydd oddi ar y safle yn ystod y diwrnod ysgol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwella**

Mae'r pennaeth a'i uwch dîm arwain wedi cynnig arweinyddiaeth gefnogol i'r ysgol mewn cyfnod o ansicrwydd mawr am ei dyfodol. Yn gyffredinol, mae'r arweinyddiaeth wedi arwain at welliannau mewn deilliannau arholiadau yng nghyfnod allweddol 4 er 2017, ymddygiad da ymhlith disgyblion a darpariaeth effeithiol i gefnogi lles disgyblion. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi amlinellu disgwyliadau digon clir ar gyfer addysgu o ansawdd uchel ac nid ydynt wedi sicrhau digon o gynnydd wrth gynllunio ar gyfer medrau llythrennedd, rhifedd na TGCh.

At ei gilydd, mae strwythur addas ar gyfer uwch arweinyddiaeth. Fodd bynnag, nid yw ystod y cyfrifoldebau wedi'i dosbarthu'n gyfartal, sy'n cyfyngu ar effaith gyffredinol yr uwch dîm arwain. Yn gyffredinol, mae gan staff ddealltwriaeth gadarn o flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella. Fodd bynnag, nid yw uwch arweinwyr wedi llwyddo i gyfleu gweledigaeth ar gyfer, na disgwyliadau ynghylch, dysgu ac addysgu o ansawdd uchel.

Mae rhaglen addas o gyfarfodydd rheoli llinell. Ar y cyfan, mae'r rhain wedi llwyddo i ddwyn staff i gyfrif a chefnogi gwelliannau. Ar y cyfan, mae mwyafrif cofnodion cyfarfodydd yn canolbwyntio'n addas ar agweddau pwysig fel ymddygiad a safonau, yn enwedig o ran deilliannau arholiadau. Maent yn cynnwys pwyntiau gweithredu defnyddiol yr eir ar eu trywydd. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, mae cofnodion yn canolbwyntio'n ormodol ar faterion gweithredol neu maent yn rhoi gwybodaeth yn unig ac nid ydynt yn ysgogi camau gweithredu.

Mae mwyafrif yr arweinwyr canol yn arwain eu meysydd cyfrifoldeb yn dda. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid ydynt yn cyflawni gweithgareddau monitro yn drylwyr nac yn ddigon aml ac nid ydynt yn gosod disgwyliadau digon clir ar gyfer ansawdd y ddarpariaeth.

Mae'r corff llywodraethol yn wybodus ac yn gefnogol iawn o'r ysgol. Mae aelodau'n cynnig her addas ynghyd â chymorth ymarferol.

Mae arweinwyr yn cynnal ystod addas o weithgareddau hunanwerthuso i'w cynorthwyo i wneud gwelliannau mewn safonau a darpariaeth. Mae ganddynt ddealltwriaeth gref o wybodaeth am berfformiad mewn arholiadau. Mae arweinwyr canol yn defnyddio dadansoddiadau manwl o'r wybodaeth hon, gan gynnwys data lefel unigolyn a dosbarth, i amlygu meysydd i'w datblygu yn effeithiol. Mae hyn yn eu helpu i wneud addasiadau priodol i'r ddarpariaeth neu gynllunio cymorth ychwanegol fel bo'r gofyn.

Yn ystod eu harsylwadau gwersi, mae arweinwyr yn canolbwyntio'n addas ar agweddau disgyblion at ddysgu, cynnydd mewn gwersi a llefaredd. Mae'r arsylwadau hyn wedi llywio blaenoriaethau ysgol gyfan ar gyfer gwella yn briodol. Ar y cyfan, fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn nodi cryfderau na diffygion mewn addysgu yn ddigon da yn ystod eu gweithgareddau monitro.

Yn gyffredinol, mae cynllunio adrannol yn talu sylw addas i feysydd penodol i'w datblygu ac mae'n cyfrannu'n briodol at flaenoriaethau ysgol gyfan. Nid yw camau gweithredu ar gyfer gwella sy'n cael eu hamlygu gan adrannau yn cael eu blaenoriaethu'n effeithiol. Mae trefniadau systematig ar gyfer monitro'u cynnydd er, mewn lleiafrif o achosion, ni chaiff y rhain eu cymhwyso'n ddigon trylwyr. Mae hyn yn gwanhau atebolrwydd ac yn cyfyngu ar allu arweinwyr i werthuso effaith eu camau gweithredu neu wneud addasiadau amserol, lle bo angen.

Mae'r ysgol yn dechrau datblygu diwylliant dysgu lle y mae'r aelodau staff yn barod i rannu'u syniadau a dysgu o'u llwyddiannau a'u methiannau. Trwy eu defnydd o'r sesiynau 'blwch offer', mae staff yn cydweithredu i rannu a thrafod eu harfer.

Mae uwch arweinwyr wedi cyflwyno hyfforddiant arweinyddiaeth cadarn i benaethiaid newydd y pynciau craidd ac mae hyn wedi gwella'u dealltwriaeth o'u rôl a'u defnydd ar ddata yn benodol. Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag ysgolion eraill o fewn yr awdurdod lleol a'r tu hwnt i rannu syniadau a dysgu o brofiadau ysgolion eraill. Mae wedi sefydlu cysylltiadau buddiol â sefydliadau addysg athrawon. Yn ddiweddar iawn hefyd, mae'r ysgol wedi sefydlu pedwar gweithgor i ganolbwyntio ar flaenoriaethau'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r grwpiau proffesiynol hyn wedi cael digon o effaith ar wella ansawdd addysgu na medrau llythrennedd disgyblion.

Mae trefniadau priodol ar gyfer rheoli perfformiad. Mae amcanion yn cyd-fynd yn gyffredinol â blaenoriaethau'r ysgol ac wedi'u cysylltu'n briodol â chyfleoedd dysgu proffesiynol. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif yr amcanion rheoli perfformiad yn ddigon manwl i alluogi athrawon i gynllunio ar gyfer gwelliant na mesur eu gwelliant yn llwyddiannus.

Caiff aelodau staff cymorth eu dosbarthu'n effeithiol ac maent yn adnodd gwerthfawr. Mewn ychydig bach iawn o enghreifftiau, ni chaiff athrawon eu dosbarthu'n effeithlon.

Er 2014, mae cyllid yr ysgol wedi bod yn anwadal ac mae'r ysgol wedi gallu cofnodi gwarged yn y gyllideb ar ddau achlysur ers yr adeg honno. Ar hyn o bryd, mae diffyg gan yr ysgol ac mae wedi cytuno ar gynllun i leihau'r diffyg gyda'r awdurdod lleol. Yn gyffredinol, nid yw'r ysgol yn monitro costiadau'r gyllideb yn ddigon trylwyr.

Er bod cyllideb yr ysgol yn gyfyngedig iawn, mae'r ysgol wedi parhau i uwchraddio cyfarpar technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, ac wedi ailaddurno'n briodol, er nad yw'r holl doiledau mewn cyflwr da.

Ar y cyfan, mae'r ysgol yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn addas, a defnyddir y cyllid hwn i gynorthwyo disgyblion mewn meysydd pwysig. Fodd bynnag,

nid yw hyn wedi cael digon o effaith barhaus ar bresenoldeb nac ar ddeilliannau disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle y bo'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth, ac mewn ardaloedd awyr agored
- lle y bo'n briodol, yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle y bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/12/2019